# Cylchlythyr Cymru Can: Hinsawdd a Nature



## Yn y rhifyn hwn

---


- *Cymru Can achub ein dŵr*
- *Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025*
- *Deddf newydd i amddiffyn natur*
- *Rheoli ystadau gyda'r dyfodol mewn golwg*
- *Parisiaid yn dweud 'ie' i ddinas fwy gwyrdd*
- *Y Gwasanaeth Natur – Ymunwch â'r mudiad*
- *Ymunwch â'n Fforwm Diwylliant*


---

Llywiwch drwy bob adran drwy'r botwm cynnwys (gwaelod dde'r Sway).

## **Cymru Can** achub ein dŵr

---

*Mae dŵr yn ein cadw ni'n fyw.*

*Ond nid yw ansawdd ein dŵr yn ddigon da o hyd ac mae pobl ledled Cymru yn gwybod hynny.*

---

Dechreuais fy mis cyntaf fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan wneud y her am weithredu brys i amddiffyn ein hafonydd. Bu rhywfaint o gamau gweithredu cadarnhaol i atal y llygredd i'n dŵr.

- Ar ôl fy ymyrraeth i, ehangodd Llywodraeth Cymru ar ei Huwchgynadleddau Afonydd blaenorol, sydd bellach wedi'u hailenwi'n Uwchgynadleddau Dŵr, i ganolbwyntio ar leihau **pob** ffynhonnell llygryddion, nid ffosffadau yn unig, a chynnwys **holl** afonydd Cymru, nid dim ond y rhai mewn ardal warchodedig.
- Mae canran y ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi gostwng yn sylweddol.

- Mae Partneriaeth Dalgylch Yr Wysg yn adfer Afon Wysg drwy ddull cydweithredol ar gyfer y dalgylch cyfan a phenodi Gwarcheidwad Natur sy'n rhoi llais natur wrth wraidd gwneud penderfyniadau.
- Ym mis Chwefror 2026, bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cyhoeddi Papur Gwyrdd ar ddyfodol llywodraethu dŵr yng Nghymru.



Ond fel mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol 2025 (SoNaRR) Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddatgelu, nid yw ansawdd ein dŵr yn ddigon da o hyd.

- Dim ond 40% o gyrff dŵr sy'n cyflawni statws da.
- Disgwylir i eogiaid ddiflannu'n llwyr o rai afonydd erbyn 2030.
- Cofnododd Dŵr Cymru y nifer uchaf o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth mewn 10 mlynedd.

Mae gan genedlaethau'r dyfodol yr hawl i ddŵr glân. Dyna pam, mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru sy'n dod i'r swydd ym mis Mai sicrhau bod ansawdd dŵr ar frig eu hagenda.

Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, anogais i Cyfoeth Naturiol Cymru gael yr un pwerau rheoleiddio â'i gymar yn Lloegr, gan gynnwys yr awdurdod i gyhoeddi sancsiynau sifil fel gorchmynion atal a dirwyon am weithgareddau llygru.

Argymhellais hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn cydweithio rhwng cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr ffermio, a rheoleiddwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru drwy fyrddau rheoli maetholion a fforymau arfordirol ac afonydd.

Bydd angen i bawb gydweithio - mudiad ar y cyd o weithrediad brys - os ydym am achub ein dŵr.

Ac rwy'n gwneud hynny'n glir pan fyddaf yn cwrdd ag arweinwyr newydd Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac NFU Cymru, sefydliadau sy'n chwarae rhan bwysig yn hyn, yn fuan.

Mae achub ein hafonydd a'n moroedd yn fater o fywyd a marwolaeth. Ni allwn fethu.



## Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025

Dylai Cymru fod yn falch o'i choetiroedd hynafol, ei mawnogydd sinc carbon a'i chynefinoedd morol amrywiol.

Ond mae ein hamgylchedd ar bwynt tyngedfennol, ac mae'r canlyniadau eisoes yn taro'n galed: llifogydd yn ein trefi, afiechydon sy'n gysylltiedig â gwres, afonydd llygredig, cân adar yn lleihau, a phrisiau bwyd yn codi.

Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol 2025 (SoNaRR) Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu bod bron i un o bob pump rhywogaeth yng Nghymru bellach yn wynebu difodiant, mai dim ond 40% o gyrff dŵr sy'n cyflawni statws da, a bod gwydnwch ecosystemau yn isel ledled y wlad.

**Felly beth allwn ni ei wneud amdano?**

Mae'r bennod 'Pontydd i'r Dyfodol' yn cynnwys map ffordd ar gyfer y newid systemig sydd ei angen ar Gymru ac mae'n cyd-fynd yn agos â'r argymhellion a wnaed yn ein Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.







Mae'n cynnig ffyrdd ymarferol o droi tystiolaeth SoNaRR yn weithredu, i gau'r bwlch rhwng polisi a bywyd bob dydd:

1. Ailgynllunio systemau bob dydd - bwyd, ynni, teithio a'r amgylchedd adeiledig

2. Adfer natur fel seilwaith hanfodol
3. Adeiladu economi adfywiol
4. Ail-alinio llywodraethu ar gyfer y tymor hir
5. Cyflwyno trosglwyddiad teg

Wrth siarad yn lansiad SoNaRR, galwais ar gyrff cyhoeddus i gyflymu'r ffordd rydym yn defnyddio natur fel un o'n cynghreiriaid mwyaf pwerus wrth greu bywydau gwell i bob un ohonom drwy atal llifogydd, lleihau llygredd a diogelu ein hiechyd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi ffordd inni ddelio â'r problemau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn. Ond heb gamau brys, cydlynol ar draws y sector cyhoeddus i atal a gwrthdroi dirywiad peryglus ein hamgylchedd, rydym yn llythrennol yn peryglu bywydau'n ddiangen.

O gynllunio cyllideb a'r hyn rydyn ni'n ei brynu, i reoli tir a sut rydyn ni'n gofalu am ein hadeiladau; mae angen i bawb ym mhob gwasanaeth cyhoeddus chwarae rhan wrth ddatgloi pŵer natur.

Darllenwch SoNaRR a'r bennod Pontydd i'r Dyfodol.

## Deddf newydd i amddiffyn natur

Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth (Cymru) gam yn nes at gael ei wneud yn gyfraith. Bydd Cyfnod 3 yn dechrau ar 10 Chwefror gyda'r nod y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei phasio gan y Senedd ac yn derbyn Cydsyniad Brenhinol o fewn tymor presennol y Llywodraeth.

Roedd angen y gyfraith newydd i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu ar ôl Brexit, gan sicrhau bod corff gwarchod annibynnol - Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW) - **yn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif, yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol cyfreithiol mewn polisi, ac yn gosod targedau bioamrywiaeth rhwymol i frwydro yn erbyn yr argyfwng natur**.

Cymru yw'r olaf o bedair gwlad y DU i gyflwyno hyn.

Rydym wedi rhoi cyngor a thystiolaeth sy'n cryfhau'r Bil arfaethedig drwy:

- Alinio'r ddeddfwriaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gosod targedau natur brys, hirdymor
- Sicrhau bod gan y corff llywodraethu amgylcheddol newydd annibyniaeth lawn a digon o gyllid i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth

Bydd y rhan fwyaf o'r dyletswyddau'n disgyn ar Weinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, ond bydd angen i gyrff cyhoeddus a chwmnïau dŵr hefyd gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol newydd mewn polisïau a chynlluniau sydd, neu a allai, gael effaith ar yr amgylchedd.

Am ragor o wybodaeth am y Bil a'i gynnydd, ewch i wefan Senedd Cymru.




## Rheoli ystadau gyda'r dyfodol mewn golwg

Mae rôl rheolwyr asedau ac ystadau ar draws cyrff cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer cyflawni targedau hinsawdd a natur Cymru.

Yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, fe wnaethom alw ar gyrff cyhoeddus i ymgorffori datgarboneiddio , gwydnwch hinsawdd, ac adferiad natur yn y ffordd y maent yn rheoli eu hadeiladau, ffermydd tenant, parciau, ymylon ffyrdd ac asedau tir eraill.

Boed yn gosod ynni adnewyddadwy mewn canolfannau hamdden, tyfu llysiau ar gyfer ysgolion ar ffermydd y sir, chwistrellu llai o blaladdwyr, neu adfer natur i atal llygredd a llifogydd; mae yna lawer o bethau y gall rheolwyr ystadau ac asedau cyrff cyhoeddus eu gwneud.






*1 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

- Mae Cyngor Abertawe a Chyfoeth Naturiol Cymru yn troi Abertawe yn 'ddinas sbwng' drwy ddefnyddio natur i amsugno dyfroedd llifogydd yng nghanol y ddinas wrth wella iechyd a bioamrywiaeth.
- Mae Cyngor Sir Penfro wedi gweithio gydag Egni Co-op i osod paneli solar ar 20 o ysgolion a chanolfannau hamdden lleol gan arbed £180k iddynt mewn costau ynni a gwella llythrennedd ecolegol plant.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn tyfu bwyd Cymreig ar gyfer plant a chartrefi gofal lleol ar un o ffermydd ei sir, Fferm Bremenda Isaf - gan gefnogi amaethyddiaeth Cymru, lleihau allyriadau carbon a chynyddu mynediad at fwyd lleol, cynaliadwy.
- Yn ei nod o fod yn sero net erbyn 2030, Llyfrgell Genedlaethol Cymru bellach yw'r ganolfan gwefru cerbydau trydan fwyaf yng Nghymru ac mae wedi gweithio gyda masnachwyr a busnesau lleol i osod paneli solar ar yr adeilad rhestredig Gradd 2.



**Beth rydyn ni'n ei wneud**

- Mae ein tîm wedi dadansoddi 32 o gynlluniau asedau gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff cenedlaethol. Rydym wedi canfod bod datgarboneiddio yn dod yn fwyfwy ymgorfforedig, ond nid yw addasu ac adfer natur yn ystyriaeth nac yn flaenoriaeth graidd o hyd.
- Rydym yn gweithio gydag Ystadau Cymru, y rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer rheolwyr ystadau ac asedau'r sector cyhoeddus, i herio a chefnogi rheolwyr asedau i ddeall eu rôl bwysig wrth weithredu ar newid hinsawdd.
- Rydym hefyd wedi gweithio gyda Dr. Alan Netherwood ar sut y dylai cyrff cyhoeddus gynnwys gwydnwch hinsawdd a natur mewn rheolaeth tir gan gynnwys:
  - Mabwysiadu dull sefydliad cyfan a dulliau blaengar i gyflawni gwydnwch hinsawdd ac adferiad natur
  - Gwella adferiad natur drwy ffermio a datblygu gwledig
  - Rheoli maetholion a chyflawni canlyniadau carbon tir

Cadwch lygad allan am gyhoeddiad y gwaith hwn ym mis Mawrth 2026.

---

*O amddiffyn y mawndir sy'n amsugno carbon, i adeiladu rheolaeth llifogydd naturiol a harneisio ynni cymunedol, rhaid i'n hystâd a rennir fod yn lifer pwerus ar gyfer newid ar draws y system.*

---



## Parisiaid yn dweud 'ie' i ddinas fwy gwyrdd

Mewn refferendwm nodedig, pleidleisiodd Parisiaid **'ie' i greu ville jardin (dinas ardd)** a pharhau â'i gwaith gwyrddu trefol presennol i gynyddu addasu i'r hinsawdd, lleihau llygredd a gwella llesiant pobl.

O wneud 500 yn fwy o strydoedd yn gyfeillgar i gerddwyr a chael gwared ar 10,000 o leoedd parcio, i blannu mwy na 500,000 o goed, creu 145 hectar o waliau a thoeau gwyrdd, a chynnal gwlyptiroedd, mae Paris yn harddu ei ddinas wrth gynyddu bioamrywiaeth, atal llifogydd a gwneud strydoedd yn fwy diogel.

Ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaethau Natur, cyfarfu Helen Nelson, ein Cyfarwyddwr Hinsawdd a Natur, â Dirprwy Faer Paris, Dr Luke Bashford (Prifysgol Newcastle) a Dr William Bird (Intelligent Health) i drafod gwyrddu Paris, gwerth natur i iechyd pobl a sut y gall Cymru weithredu cynlluniau tebyg.

Mae Cyngor Abertawe eisoes wedi dechrau ei daith o roi natur wrth wraidd seilwaith a gyda chefnogaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Urban Foundry, mae wedi adeiladu'r to gwyrdd mwyaf yng Nghymru ar Arena Abertawe.

Cadwch lygad allan ar 19 Mawrth 2026 am symposiwm ledled Cymru, ac yna cynhadledd ledled Ewrop yn Arena Abertawe.



Embed://<iframe width="560" height="315" src="https://www.youtube.com/embed/bo46SsOVZt8?si=GEU5T57SymQFMD88" title="YouTube video player" frameborder="0" allow="accelerometer; autoplay; clipboard-write; encrypted-media; gyroscope; picture-in-picture; web-share" referrerpolicy="strict-origin-when-cross-origin" allowfullscreen></iframe>

Embed://<iframe width="560" height="315" src="https://www.youtube.com/embed/gwcmYj9qVu0?si=FYBdNljVM2dRw650" title="YouTube video player" frameborder="0" allow="accelerometer; autoplay; clipboard-write; encrypted-media; gyroscope; picture-in-picture; web-share" referrerpolicy="strict-origin-when-cross-origin" allowfullscreen></iframe>

## Y Gwasanaeth Natur – Ymunwch â'r mudiad

Gall Cymru greu miloedd o swyddi lleol sy'n seiliedig ar natur drwy adfer ar raddfa fawr, ond nid oes gennym y sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen i gefnogi'r gyrfaoedd hyn a chyflawni'r newid system sydd ei angen i achub ein hamgylchedd.

Wrth weithio gyda phobl ifanc i nodi'r rhwystrau i ddilyn gyrfaoedd sy'n seiliedig ar natur, canfu'r Gwasanaeth Natur nad diffyg diddordeb na chymhelliant oedd y broblem, ond bod cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd sy'n seiliedig ar natur yn anweledig i raddau helaeth.

Felly mae'r Gwasanaeth Natur yn dod â phartneriaid hyfforddi sydd eisoes yn gwneud gwaith gwych ynghyd, i adeiladu mudiad o ddysgu a gweithio er gwasanaeth natur.

Gyda gwefan newydd a chyfeiriadur cenedlaethol wedi'u cynllunio ar gyfer 2026, a phartneriaeth ymchwil gyda'r Brifysgol Agored i gefnogi cyfranogiad a datblygiad pobl ifanc, byddant yn helpu pobl i ddod o hyd i'r cyfleoedd i wneud gwahaniaeth.

Mae sectorau eraill wedi deall ers tro fod angen buddsoddi mewn piblinellau sgiliau. Ni ddylai adfer natur fod yn wahanol.

I ymuno â'r mudiad cynyddol i wasanaethu natur, cysylltwch â Daniel Lock, Cyfarwyddwr Y Gwasanaeth Natur drwy Daniel.lock@ffcc.co.uk.

Y Gwasanaeth Natur
The Nature Service



## Ymunwch â'n Fforwm Diwylliant

**Ymunwch â'n Fforwm Diwylliant** ar 25 Chwefror 2026 am:

- Adroddiad ymchwil newydd ar gyfer datblygu Bil Diwylliant
- Lansio ein Canllawiau i Weithwyr Llawrydd ar gyfer Cyrff Cyhoeddus
- Mewnwelediadau gan gyrff cyhoeddus a'r sector diwylliannol ar flaenoriaethau ar gyfer 2026

**Cofrestrwch i ymuno â'r Fforwm.**

Mae gennym gronfa fach ar gael i gefnogi cyfranogiad gweithwyr llawrydd. Cysylltwch jacob.ellis@futuregenerations.wales am ragor o wybodaeth.




## Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales